



Bwyta'r Swigod

Yr offer sydd ei angen

- Swigod (peiriant/gwialen swigod)
- Papur newydd (dewisol)

I gwblhau'r gweithgaredd

1. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried sut a ble maen nhw'n dod o hyd i'w bwyd. Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr drafod sut y byddent yn dal bwyd pe baent yn sownd ar ynys anial. Trafodwch sut mae gwahanol anifeiliaid yn y gwyllt yn dod o hyd i ac yn dal eu bwyd. Anogwch nhw i ystyried y gwahanol addasiadau sydd ganddyn nhw i'w helpu. Eglurwch fod llawer o anifeiliaid yn y môr yn mynd ar drywydd ysglyfaeth (e.e. siarcod a dolffiniaid). Beth am anifeiliaid sydd ddim yn symud, e.e. anemonïau môr a cregyn llong? Esboniwch fod yr anifeiliaid hyn yn glynu wrth greigiau caled ac angen dal bwyd sy'n nofio neu'n pasio heibio iddynt yn y dŵr.


2. Mewn ardal chwarae agored, gofynnwch i'r dysgwyr eistedd ar y llawr mewn cylch gyda'r peiriant swigod neu wirfoddolwr yn chwythu swigod yn y canol.

Anemonïau'r môr yw'r dysgwyr, ac ysglyfaeth yw'r swigod (gronynnau bach o fwyd yn y dŵr). Gyda'r peiriant swigod / gwirfoddolwr yn chwythu swigod o amgylch y cylch, anogwch y dysgwyr i ddal cymaint â phosibl, tra'n eistedd yn yr unfan.

Ar ôl ychydig funudau, gofynnwch i'r dysgwyr beth oeddent yn ei feddwl o'r gweithgaredd a beth oedd angen iddynt ei wneud i ddal y swigod. Efallai y byddant yn sylweddoli, er mwyn dal bwyd, fod angen iddynt ymestyn eu breichiau a'u chwifio o gwmpas, yn union fel y mae anemonïau môr yn ei wneud gyda'u tentaclau, i gymryd plancton a mwynau.

3. Fel ychwanegiad i'r gweithgaredd hwn, os oes digon o le, cynigwch ddalen o bapur newydd wedi ei rolïo neu wedi'i wyntyllu er mwyn ymestyn breichiau'r dysgwyr. Gofynnwch iddyn nhw feddwl pa ffordd sydd fwyaf effeithiol ac ystyried sut mae'r rhain yn cymharu ag addasiadau bwydo anifeiliaid go iawn.

4. Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr ddod yn ddolffiniaid, gan egluro mai pysgod yw'r swigod. Y tro hwn, gall y dysgwyr 'nofio' o gwmpas i fynd ar drywydd eu hysglyfaeth. Ar ôl ychydig funudau gofynnwch i'r dysgwyr a oedd hyn yn ffordd haws o fwydo. Wnaethon nhw ddal mwy? Ydyn nhw wedi blino? Gall hyn ysgogi trafodaeth am egni a enillwyd ac a gollwyd, a'r cydbwysedd sydd ei angen rhwng egni a ddefnyddiwyd ac egni a dreuliwyd. Yw symud ar ôl bwyd bob amser yn werth yr egni sy'n cael ei ddefnyddio?



- Swigod
- Dysgwyr
- Peiriant Swigod
- Papur Newydd